iRehab

Remote rehabilitation after intensive care

| ID | Welsh | English |
|---|---|---|
| 1 | Mae angen llawer iawn o ofal a chymorth | People who are treated in intensive care |
| 2 | arbenigol ar bobl sy'n cael eu trin mewn gofal dwys. | need a great amount of specialist care and support. |
| 3 | Ar ôl cael eu rhyddhau adref o'r ysbyty | After being discharged from hospital |
| 4 | mae rhai pobl yn profi gwendid cyhyrau, blinder, diffyg anadl, | some people experience muscle weakness, fatigue, shortness of breath, |
| 5 | problemau cof a llesiant emosiynol gwael. | memory problems and poor emotional well-being. |
| 6 | Gall adferiad fod yn anodd, a gall tasgau dydd i ddydd fod yn heriol. | Recovery can be difficult, and day-to-day tasks can be challenging. |
| 7 | I'r mwyafrif o bobl, | For most people, |
| 8 | mae'r problemau hyn yn gwella ar eu pen eu hunain, ond i rai, | these problems improve on their own, but for some, |
| 9 | gallant barhau am amser hir ar ôl gadael yr ysbyty. | they can continue for a long time after leaving the hospital. |
| 10 | Mae pobl eisiau dychwelyd i fyw eu bywydau, | People want to get back to living their life, |
| 11 | ac i wneud hynny, mae angen cymorth arnynt. | and to do that, they need support. |
| 12 | Nod iRehab oedd darganfod a all rhaglen adsefydlu | The aim of iRehab was to find out if a rehabilitation programme could |
| 13 | helpu cleifion i wella'n gyflymach ac yn well na gofal safonol y GIG, | help patients recover faster and better than the standard NHS care, |
| 14 | ar ôl bod mewn gofal dwys | after being in intensive care. |
| 15 | Cymerodd 429 o gyfranogwyr ar draws 52 ysbyty yn y DU ran | 429 participants across 52 hospitals in the UK took part |
| 16 | yn iRehab. | In iRehab. |
| 17 | Roedd 57% yn wrywod a'r oedran cyfartalog oedd 55 oed. | 57% were males and the average age was 55. |
| 18 | Neilltuwyd cyfranogwyr yr astudiaeth ar hap i un o ddau grŵp: | The study participants were randomly assigned to one of two groups: |
| 19 | Derbyniodd 198 o bobl Grŵp 1, oedd yn cynnwys gofal arferol y GIG | 198 received Group 1, consisting of routine NHS care |
| 20 | a roddir ar hyn o bryd i gleifion sydd wedi bod mewn gofal dwys. | which is currently given to patients who have been in intensive care. |
| 21 | Derbyniodd 231 o bobl Grŵp 2, a elwir yn rhaglen iRehab. | 231 received Group 2, known as the iRehab programme. |
| 22 | Cynlluniodd tîm iRehab raglen gymorth ac adsefydlu ymarfer corff newydd, | The iRehab team designed a new support and exercise rehabilitation programme, |
| 23 | yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd gan gleifion. | based on the needs identified by patients. |
| 24 | Cafodd y rhaglen ei chyflwyno o bell gan staff hyfforddedig unwaith | Trained staff delivered the programme remotely once |
| 25 | yr wythnos am 6 wythnos, ac roedd yn cynnwys ymarferion wedi'u targedu, | a week for six weeks, and it included targeted exercises, |
| 26 | sesiynau rheoli symptomau a chymorth seicolegol. | symptom management sessions and psychological support. |
| 27 | Cyn derbyn un o'r grwpiau hyn, | Before receiving one of these groups, |
| 28 | gofynnwyd i gyfranogwyr gwblhau asesiadau astudiaeth. | participants were asked to complete study assessments. |
| 29 | Yna, | Then, |
| 30 | casglom yr un wybodaeth eto ddau fis a 6 mis yn ddiweddarach. | we collected the same information again two months and six months later. |
| 31 | Casglodd yr asesiadau hyn wybodaeth am sut roedd bod mewn uned | These assessments gathered information about how being in intensive |

| | | |
|---|---|---|
| | gofal dwys yn effeithio | care affected |
| 32 | ar iechyd corfforol a meddyliol, ansawdd bywyd a ffitrwydd cyffredinol person. | a person's physical and mental health, quality of life and overall fitness. |
| 33 | Yn dilyn dadansoddiad o'r wybodaeth hon, | Following an analysis of this information, |
| 34 | dangosodd y canfyddiadau fod ansawdd bywyd y rhai a dderbyniodd y rhaglen iRehab, er nad oedd yn sylweddol, | the findings show that those who had received the iRehab programme, even though it wasn't significant, had greater improvement in quality of |
| 35 | wedi gwella mwy ar ôl 8 wythnos | life after 8 weeks |
| 36 | na'r grŵp a dderbyniodd ofal safonol y GIG | than the group who had received standard NHS care |
| 37 | ac, erbyn 6 mis, roedd y gwelliant hwn yn sylweddol well. | And, by 6 months, this improvement was significantly better. |
| 38 | Roedd gan y cyfranogwyr a dderbyniodd y rhaglen iRehab hefyd lawer llai | The participants who received the iRehab programme also had significantly less |
| 39 | o symptomau blinder a gorbryder a gwell cryfder a | symptoms of fatigue and anxiety and improved lower body strength and |
| 40 | gwydnwch yn rhan isaf y corff ar ôl 8 wythnos a 6 mis. | endurance after 8 weeks and 6 months. |
| 41 | Dangosodd tystiolaeth hefyd fod iRehab yn ddiogel, yn dderbyniol ac yn ddifyr i gyfranogwyr. | Evidence also showed that iRehab was safe, acceptable and enjoyable to participants. |
| 42 | Mae'r GIG yn ymdrechu i ddarparu gwell cymorth i bobl sy'n cael eu rhyddhau | The NHS strives to provide better support to people who are discharged |
| 43 | o ofal dwys. | from intensive care. |
| 44 | Rydym yn hyderus y bydd y wybodaeth o'r treial clinigol cadarn hwn | We are confident that the information from this robust clinical trial will be |
| 45 | yn ddefnyddiol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol | useful to health care professionals |
| 46 | a ddylai ystyried cynnig iRehab i gefnogi adferiad. | who should consider offering iRehab to support recovery. |
| 47 | Cafodd y treial hwn ei gefnogi gan dîm ymchwil mawr | A large research team supported this trial |
| 48 | a'i ariannu gan y Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd a Gofal. | and funded by the National Institute of Health and Care Research. |